

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PORTH SGILIAU
SKILLS GATEWAY

CYFLOGWYR YNG NGHYMRU

# Datblygu gweithlu medrus a chymwysedig gyda Chyfrif Dysgu Personol

EMPLOYERS IN WALES

# Grow a skilled and qualified workforce with a Personal Learning Account


UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



# BYDD Y CYNLLUN HYFFORDDI NEWYDD YN EICH HELPU I RECRIWTIO POBL SYDD Â'R SGILIAU A'R CYMWYSTERAU PRIODOL AR GYFER EICH BUSNES.

# NEW TRAINING INITIATIVE WILL HELP YOU TO RECRUIT PEOPLE WITH THE RIGHT SKILLS AND QUALIFICATIONS FOR YOUR BUSINESS.




## Beth yw Cyfrif Dysgu Personol?

Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau dysgu hyblyg sy'n cael eu hariannu'n llawn ar gyfer unigolion cyflogedig sy'n ennill incwm o dan y canolrif (£29,534) neu y mae eu swyddi mewn perygl. Mae'n caniatáu iddynt ennill y sgiliau priodol i symud ymlaen mewn cyflogaeth ar lefel uwch neu newid gyrfa. Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio'n benodol i fynd i'r afael â hyfforddiant galwedigaethol mewn sectorau lle mae prinder sgiliau i sicrhau bod anghenion yr economi yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

Mae'r cynllun yn gallu helpu eich busnes drwy uwchsgilio eich staff presennol mewn meysydd fel TG a sgiliau digidol, cyllid a mwy.

## Beth yw'r manteision i'ch busnes?

Gydag effaith ddeuol y pandemig a Brexit ar yr economi, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun a fydd yn helpu i arfogi eich staff â'r sgiliau sydd eu hangen ar eich busnes.

Mae'r cyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu na fydd yn rhaid i chi ddarparu unrhyw gymorth ariannol i helpu eich gweithwyr i ennill sgiliau newydd, na gwella eu doniau presennol. Maen nhw'n hollol hyblyg, gyda chyrsiau rhan amser ar gael i gyd-fynd â'ch busnes a'ch patrwm gweithio.



## What is a Personal learning account?

Personal Learning Accounts are flexible and fully funded learning courses for employed individuals earning under the media income (£29,534) or whose jobs are at risk, allowing them to gain the right skills to progress in employment at a higher level or change careers. The courses are specifically designed to address vocational training in sectors where there is a skills shortage to ensure the future needs of the economy are met.

The initiative can help your business by upskilling your existing staff in areas such as IT and digital skills, finance and more.

## What are the benefits to your business?

With the dual impact of both the pandemic and Brexit on the economy, the Welsh Government has developed an initiative that will help equip your staff with the skills your business needs.

The courses are fully-funded by the Welsh Government, meaning you won't have to provide any financial support towards helping your employees gain new skills, or improve their existing talents. They are also fully flexible, with part-time courses available to fit around your business and work pattern.



## Sut mae cael gafael ar y rhaglen?

Chwiliwch am y **Porth Sgiliau i Fusnes** ar y we neu **ffoniwch Busnes Cymru ar 03000 6 03000**. Neu gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'ch coleg lleol.

## Pa gyrsiau sydd ar gael?

Rydyn ni wedi dewis y cyrsiau ar ôl ymgysylltu a thrafod yn helaeth â chyflogwyr, rhanddeiliaid, grwpiau cynrychioliadol a darpar gyfranogwyr i sicrhau eu bod yn ymdrin â'r prinder sgiliau yn y sectorau blaenoriaeth.

Mae cyrsiau ar gael mewn amrywiaeth eang o feysydd, fel TG a sgiliau digidol, cyllid, peirianneg, adeiladu, rheoli prosiectau ac mae cyrsiau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer gofal, ynni gwyrdd a logisteg – gan gynnwys hyfforddiant i yrwyr. Bydd eich coleg lleol yn gallu darparu rhestr lawn o'r cymwysterau maen nhw'n eu cynnig drwy'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol.

## Manylion cyswllt

Ewch i'r **Porth Sgiliau** neu **ffoniwch Busnes Cymru 03000 6 03000** i gael rhagor o wybodaeth am Gyfrifon Dysgu Personol ar gyfer eich busnes.



## How can the programme be accessed?

Search **Skills Gateway for Business** or **call Business Wales 03000 6 03000**. Or alternatively you can directly contact your local college.

## What courses are available?

The courses have been chosen following extensive engagement with employers, stakeholders, representative groups, and potential participants to ensure they address the skill shortages within priority sectors.

Courses are available in a wide range of areas, such as IT and digital skills, finance, engineering, construction, project management and new courses are being developed for care, green energy and logistics – including driver training. Your local college will be able to provide a full list of qualifications they are offering through the Personal Learning Account programme.

## Contact information

Visit **Skills Gateway** or **call Business Wales 03000 6 03000** for more information about Personal Learning Accounts for your business.

